# Gwobrau Dysgu Cymraeg 2026

## Dechrau Arni

Gwobr ar gyfer tiwtoriaid newydd, sydd wedi ymuno â'r gweithlu dros y ddwy flynedd diwethaf.

Bydd y tiwtor wedi dangos cynnydd sylweddol yn eu gallu i addysgu'r Gymraeg, gan ysbrydoli dysgwyr i wneud cynnydd a dal ati i ddysgu'r iaith.

Bydd y tiwtor wedi ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac elwa ohono yn ystod y ddwy flynedd, ac wedi adeiladu sgiliau gwerthfawr sy'n trosglwyddo i'r dosbarth.

## Ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg

Gwobr ar gyfer ymrwymiad cryf i gefnogi a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Bydd y tiwtor/swyddog wedi cynnig arweiniad ar gyfer gweithgareddau cefnogi dysgwyr e.e drwy waith â phartneriaid.

Bydd gwaith y tiwtor wedi arwain at ddysgwyr sy'n defnyddio'u Cymraeg tu allan i'r dosbarth.

## Arloesedd a Mentergarwch

Gwobr ar gyfer tiwtor sydd wedi bod yn gyflogedig am o leiaf dwy flynedd ac sydd wedi dangos agwedd arloesol a mentergarwch tuag at eu gwaith.

Bydd y tiwtor wedi defnyddio adnoddau, methodolegau dysgu neu dechnegau ymgysylltu cryf sy'n ysgogi dysgwyr i gwblhau cyrsiau a dal ati i ddysgu Cymraeg.

## Arweinyddiaeth Ysbrydoledig

Gwobr ar gyfer arweinydd o fewn y sector sydd wedi gweithio mewn rôl arweiniol am o leiaf dwy flynedd.

Bydd yr arweinydd wedi cefnogi Cynllun Strategol y Ganolfan, gan sicrhau cyfraniad amlwg at y nodau cenedlaethol tra'n ysbrydoli cydweithwyr a dysgwyr yn gadarnhaol ac yn gynhwysol.

## Cynnal Gwasanaeth Rhagorol

Gwobr ar gyfer aelod o staff cefnogi o fewn y sector sydd wedi bod yn y rôl am o leiaf dwy flynedd.

Bydd yr aelod o staff cefnogi wedi darparu cefnogaeth gadarn i gydweithwyr a dysgwyr, gan ddangos technegau arloesol ac effeithiol.

Bydd yr aelod o staff yn cyfrannu'n allweddol at waith y ddarpariaeth gan roi'r dysgwr wrth galon y gwaith.